# y dinesydd

Hydref 1998 | PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH | Rhif 240


# Agor Plasmawr

Wedi blynyddoedd o aros, ar ddechrau mis Medi, agorwyd ail ysgol uwchradd Gymraeg ein prifddinas. Gyda diwrnod o ddathlu, agorwyd Ysgol Plasmawr. Cafwyd seremoni agor ben bore - yn gymysgedd o eitemau gan ddisgyblion yr ysgol ac areithiau gan arweinwyr cyhoeddus ein dinas. Cyflawnwyd y ddefod ffurfiol gan Rhodri Morgan A.S.

Plasmawr yw'r dystiolaeth ddiweddaraf o lwyddiant a thyfiant addysg Gymraeg yn y brifddinas a'r cyffiniau - yn dwyn atgofion melys i rai pobl o frwydrau sefydlu Bryntaf a Glantaf.

Mewn cyfres o weithdai a gynhaliwyd gyda staff Plasmawr, soniodd Eirlys Pritchard Jones am ddwy ymdrech fawr a fydd, mae'n debyg, yn gerrig milltir o bwys yn hanes yr iaith Gymraeg. Mae pawb yn cydnabod pwysigrwydd y cyntaf, sef cyfieithu'r Beibl gan William Morgan, ond efallai ein bod ni yn byw yn yr ail gyfnod allweddol, sef cyfnod twf addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Amser a ddengys a fydd yr ail gyfnod yn diogelu'n hiaith.

Mae'r cynllunio ar gyfer Plasmawr wedi golygu cydweithio gofalus rhwng yr holl bartneriaid. Bu cyfraniad Corff Llywodraethol Plasmawr o dan arweiniad Mr Dan Roberts a Mr John Griffiths yn allweddol wrth ennyn cefnogaeth lawn y Sir i'r fenter. Bu'r trafodaethau rhwng Glantaf a'r Sir rai blynyddoedd yn ôl yn allweddol wrth flaengynllunio. Mae cefnogaeth y Sir trwy'r adran addysg, ac yn arbennig gwaith Mrs Nerys Snowball, Mr Malcolm Thomas a'r Is-Gyfarwyddwr Addysg, Mr Dave Martin, wedi bod yn arbennig. Mae'n diolchiadau yn gwbl ddiffuant.

Mae her fawr nawr yn wynebu holl bartneriaid Plasmawr - sut awn ni ymlaen i greu cymuned wâr, eangfrydig, Gymraeg, ddisgybledig, dechnolegol i fil o ddisgyblion a hanner cant o staff? Bydd y blynyddoedd nesaf yn rhai allweddol wrth i ni osod seiliau cadarn i'r ysgol. Yn hyn o beth hoffwn ddiolch am y gefnogaeth hyd yma, a dymuno'n dda i'n staff, ein llywodraethwyr a'n rhieni, ac yn fwyaf arbennig i'n disgyblion wrth i ni gamu i'r dyfodol.

**Geraint Rees (Prifathro)**




Agoriad Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, ddydd Mawrth, 8 Medi 1998.
*O'r chwith:* Tom Davies (Cyfarwyddwr Addysg), Peter Perkins (Cadeirydd y Pwyllgor Addysg), Cynghorydd Marian Drake (Arglwydd Faer Dinas Caerdydd), Rhodri Morgan A.S. a Geraint Rees (Prifathro Plasmawr) *Llun: Robin Griffith*


**Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru**

**2001**

Yng Nghlwb Rygbi Caerdydd
Nos Fercher, 4 Tachwedd, 1998
am 7.30 pm

**Cyfarfod Cyhoeddus**

i wahodd
yr Eisteddfod i
Ddinas Caerdydd yn 2001

**CROESO CYNNES I BAWB**

# Y Dinesydd

**Hydref 1998, Rhif 240.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Tachwedd at un o'r gohebwyr canlynol erbyn 30 Hydref:**

**Newyddion y Fro:**
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253).
**Newyddion o'r Eglwysi:** Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811).
**Newyddion Ysgolion Cynradd:**
Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562).
**Newyddion Ysgol Glantaf:** Mrs S. E. Williams, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Heol y Bont, Ystum Taf, Caerdydd (Ffôn: 333080)
**Newyddion Ysgol Plasmawr:** Mrs Siriol Wilde, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Ffordd Pentre-baen, Tyllgoed, Caerdydd (Ffôn: 405499)
**Newyddion Chwaraeon:** Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540).
**Newyddion Cyffredinol:** Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282; Ffacs: 758106).

**Anfonwch unrhyw ymholiadau golygyddol at:**
Mrs Linda Thomas, 3 Llwynfedw Gardens, Llwynbedw, Caerdydd (Ffôn: 693302).
**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 842929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:

Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn 01222-623749)

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE (Ffôn: 521325) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ..................................................................

.............................................. Côd Post: ..................

Rhif Ffôn: ..................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ..................................................................

.............................................. Côd Post: ..................

Rhif Ffôn: ..................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.


## Calendr y Dinesydd

**Llun, 2 Tachwedd**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: 'Cloddio'r Nadolig' gan Iris Cobbe, yn neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.
**Mercher, 4 Tachwedd**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur: Chwarae ceilys yn y Masons Arms, Yr Eglwys Newydd, am 7.30 p.m.
**Gwener, 6 Tachwedd**
Cymrodorion Caerdydd: 'Y Dr R. T. Jenkins a Chaerdydd' gan Dr John Davies, yn neuadd Eglwys Minny Street am 7.15 p.m.
**Sadwrn, 7 Tachwedd**
Perfformiad Ysgol Gyfun Glantaf o 'Elias' (Mendelssohn) i ddathlu 20fed pen-blwydd yr ysgol, yn Neuadd Dewi Sant am 7.30 p.m.
**Llun, 9 Tachwedd**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: 'Canu'r Byd a'r Betws' gan D. Roy Saer, yn neuadd Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.
**Mercher, 11 Tachwedd**
Merched y Wawr, Cangen y Garth: 'Trefniant Nadolig' - cyngor gan Alma Carter, yn Neuadd y Pentref, Pen-tyrch, am 8.00 p.m..
**Iau, 12 Tachwedd**
Cylch Cinio Merched Caerdydd: Gwesty'r Phoenix, Llanisien am 7.00 p.m. erbyn 7.30 p.m. Trefnu blodau, yn cynnwys trefniadau Nadoligaidd, yng nghwmni Alma Carter.
**Iau, 12 Tachwedd**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: 'Mawlgan' gan Alan Luff, yng nghapel Bethel am 7.30 p.m.
**Gwener, 13 Tachwedd**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Sgwrs gan Dr Bethan Jones o Ysgol Feddygol Cymru, yn neuadd Eglwys Bethel, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m.
**Gwener, 13 Tachwedd**
Cymry'r Wenallt: Sgwrs gan yr Athro Howard Evans, yng Nghlwb Rygbi'r Eglwys Newydd, Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, am 8.00 p.m.
**Gwener, 13 Tachwedd**
Cymdeithas y Crwys: 'Gwenallt.' Darlith gan yr Athro Hywel Teifi Edwards, yn Theatr Capel y Crwys am 7.30 p.m.
**Sadwrn, 14 Tachwedd**
Dangosiad cyntaf erioed *Chwedlau Chaucer* wedi'u hanimeiddio yn y Gymraeg, yn Chapter am 5.30 p.m. (yn rhan o'r Ŵyl Ffilmiau Ryngwladol). Tocynnau: 01222-304400.
**Sul, 15 Tachwedd**
Dangosiad o'r ffilm *Lois* yn Chapter am 8.00 p.m. (yn rhan o'r Ŵyl Ffilmiau Ryngwladol). Tocynnau: 01222-304400
**Llun, 16 Tachwedd**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Anawsterau Trafnidiaeth Heddiw ac Yfory.' Darlith gan Eryl Jones ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.
**Mawrth, 17 Tachwedd**
Cymrodorion y Barri: 'Hanes Gwisgoedd yr Orsedd' gan Jean Huw Jones, Rhydaman, yn neuadd Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, King Square, 7.15p.m.
**Gwener, 20 Tachwedd**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Thomas Jones yr Almanaciwr' gan yr Athro Geraint H. Jenkins, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.
**Gwener, 20 Tachwedd**
Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys a'r Cylch: Noson Lawen, gyda'r elw at achosion da, yn neuadd Eglwys San Pedr, Dinas Powys, am 7.30 p.m.
**Gwener-Sadwrn, 20-21 Tachwedd**
Theatr Gorllewin Morgannwg yn perfformio cyfieithiad John Owen o 'Skylight' (David Hare) yn Theatr Sherman am 8.00 p.m. Manylion pellach: Carys Tudur (01267-241563).
**Sadwrn, 21 Tachwedd**
Eisteddfod Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. Manylion pellach: Robin Gwyndaf (573428).
**Sadwrn, 21 Tachwedd**
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg: 'Her i'r Cynulliad.' Rali genedlaethol yn Arena Ryngwladol Caerdydd am 1.30 p.m. Siaradwyr: Hywel Teifi Edwards, Helen Prosser, Siân Howys, Branwen Nicholas, ac eraill. Manylion pellach: 01970-624501.
**Sadwrn, 21 Tachwedd**
Ysgol Undydd gan Adran Addysg Barhaol Prifysgol Caerdydd ar y testun 'Troeon yr Yrfa' yn 38 Park Place. Siaradwyr: Catrin Stevens a John Owen Huws. Manylion pellach: Gwen Awbery (01222-874832)
**Sadwrn, 21 Tachwedd**
Dangosiad o'r ffilm *Solomon a Gaenor* yn UCI am 9.00 p.m. (yn rhan o'r Ŵyl Ffilmiau Ryngwladol). Tocynnau: 0990-888990.
**Sul, 22 Tachwedd**
Dangosiad o'r ffilm *Porc Pei* yn Chapter am 2.30 p.m. (yn rhan o'r Ŵyl Ffilmiau Ryngwladol). Tocynnau: 01222-304400.

*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at: Dr. E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AJ.*

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 2** **Hydref 1998**



**Ar draws**

| | | |
|---|---|---|
| 7. 'Y mae gwedd _ _ _<br>Yn rhagori llawer iawn<br>Ar bob peth a welodd llygad<br>Ar hyd wyneb daear lawn' (W.W.) | 2,5,6 |
| 8. Sêr yn dilyn cynnwrf rhamant di-ddiwedd, ond nid drwy'r adeg | 3,5 |
| 9. Gwneud bwyd allan o bob yn ail ddarn o arch Elias | 4 |
| 10. Eglwys a chan bachgen | 4 |
| 12. Cartref lle mae'r offer cnoi wedi colli eu min | 5 |
| 15. 'Hen _ a'i choes yn eisiau' | 5 |
| 16. Troi'r garw yn urddasol | 4 |
| 18. Afon sy'n glynu | 4 |
| 19. Siarad blin am bôs fel hwn | 8 |
| 21. Aderyn y nos yn perthyn i'r ddafad yn y gân! | 6,7 |

**I lawr**

| | |
|---|---|
| 1. A fydd cas erioed yn briodol? | 7 |
| 2. Stumog y cyll yn troi | 4 |
| 3. '_ yr Arglwydd, ac efe a'm gwrandawodd' (Salm 34) | 8 |
| 4. Ar go' cymysg nid ar gau | 4 |
| 5. Gŵr oedd am fod yn urddasol | 8 |
| 6. Bron un yn troi'n fron goch | 5 |
| 11. Mae'n hysbys, mae'r werin yn swnio'n fwy digalon | 8 |
| 13. Penysgafn yw Non ar hon yn Llŷn | 8 |
| 14. Y Tad Rhufeinig cyntaf yn gomiwnydd blodeuog | 4,3 |
| 17. Nid aur popeth _ | 5 |
| 19. Rhif ffals yn Lloegr | 4 |
| 20. Gweler Dewi mewn hanes anturus | 4 |

### Atebion Croesair 1 (Medi 1998)

**Ar Draws:** 2. Cranc; 5.Sicr; 7.Cyrn; 8.Abertawe; 9.Gregynog; 11.Barn; 12.Huna dy Geidwad; 15.Pant; 17.Datguddio; 19.Moch daear; 21.Syml; 22.Clir; 23.Union.

**I Lawr:** 1.Gwydrau; 2.Can; 3.Adain; 4.Creigle; 5.Sut; 6.Cywir; 10.Gwallt; 11.Badau; 13.Ymdrechu; 14.A dirmyg; 16.Arogl; 18.Torri; 20.Dur; 21.Sen.

**Cystadleuaeth Medi 1998**

Daeth 15 ymgais i law, rhai ohonynt yn cynnwys mân wallau. Yr enw a ddewiswyd ar hap i dderbyn y tocyn llyfrau oedd Iona Warmington, 11 Llanbleddian Gardens, Cathays. Cafwyd ymgeisiadau cywir hefyd gan Gwenda Hopkins, Gwenllian Gwyn Jones, Falmai Bryant, Huana Simpson, J. Lloyd, Dilys Gunston-Jones, Margaret Jones, Heledd Hall, Myfi Cosslett, Buddug Roberts a James Wiegold.

**Cystadleuaeth Hydref 1998**

Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Rhian Williams, 56 Clearwater Way, Glan-y-llyn (*Lakeside*), Caerdydd CF2 6DJ, erbyn 30 Hydref.

## Swyddog Hysbysebion Newydd i'r *Dinesydd*

Ar ôl bod bron deng mlynedd wrth y gwaith, y mae Catrin Lloyd Rowlands wedi gofyn am gael ei rhyddhau o'i gwaith fel swyddog hysbysebion *Y Dinesydd*. Wrth ddiolch iddi'n gynnes am ei llafur cariad dros y blynyddoedd, y mae'n braf cyhoeddi fod Menna Gwyn wedi cytuno i'w holynu yn y gwaith. Y mae'r gwaith o gasglu hysbysebion yn allweddol bwysig i barhad *Y Dinesydd*, a diolchwn yn fawr iddi am ei pharodrwydd i ymgymryd ag ef. O hyn allan, felly, anfonwch eich hysbysebion, yn fawr a mân, at Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn 01222-623749).

## Diolch

Yn ogystal â hysbysebion, y mae'r *Dinesydd* yn dibynnu'n drwm am ei pharhad ar gyfraniadau ariannol gan unigolion a chymdeithasau. Yn ystod y misoedd diwethaf derbyniwyd rhoddion oddi wrth y cymdeithasau canlynol: **Cylch Cinio Merched Caerdydd, Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd, Cymry'r Wenallt, Cylch Llyfryddol Caerdydd a Chymrodorion Caerdydd.** Diolchwn yn gynnes iddynt, a hefyd i'r unigolion a anfonodd gyfraniadau yn yr un cyfnod. Pe baech yn gweld yn dda anfon calennig i'r *Dinesydd*, byddai ein Trysorydd, Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE, wrth ei fodd yn ei dderbyn!

## Marw Minwel Tibbott

Wrth i'r rhifyn hwn fynd i'r wasg, daeth y newydd trist am farw sydyn Minwel Tibbott. Bu'n fawr ei chyfraniad i fywyd Cymraeg Caerdydd, a gwnaeth gyfraniad o bwys yn genedlaethol hefyd, yn enwedig yng nghyd-destun ei gwaith diflino dros y blynyddoedd yn casglu gwybodaeth am fwydydd traddodiadol Cymru tra oedd ar staff Amgueddfa Werin Cymru. Bydd bwlch mawr ar ei hôl, ac estynnwn ein cydymdeimlad dwys i'w gŵr, Delwyn, a'r holl gysylltiadau, yn eu profedigaeth.

## Swyddog 'Cymraeg i Oedolion' Newydd

Cyhoeddwyd fod Einir Wyn Thomas wedi'i phenodi'n Swyddog 'Cymraeg i Oedolion' yn Adran Addysg a Hyfforddiant Bwrdd yr Iaith. Mae'n ymuno â'r Bwrdd ar secondiad o Goleg Sir Gaerfyrddin, lle y bu'n ddarlithydd yn Adran y Gymraeg dros y pedair blynedd diwethaf.

Nid yw Caerdydd yn lle dieithr i Einir, a dweud y lleiaf! Fe'i maged yn y ddinas a derbyn ei haddysg yn Ysgol Gyfun Glantaf ac ym Mhrifysgol Caerdydd, lle y graddiodd mewn Cymraeg a Hanes Cymru. Cyn ymuno â staff Coleg Sir Gaerfyrddin, bu'n dysgu Cymraeg i oedolion ym Mhrifysgol Caerdydd, a chyn hynny bu'n darlithio yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Lublin yng ngwlad Pwyl am ddwy flynedd, yn rhan o'r trefniant sy'n bodoli rhwng y brifysgol honno ac Adran y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd.

Dymunwn bob rhwyddineb iddi yn ei swydd newydd.

Cofiwch ymweld â safle'r *Dinesydd* ar y We:
**http://ds.dial.pipex.com/town/parade/ow12/**

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor y Celfyddydau i'r cyhoeddiad hwn.

### Dathlu 50 Bryntaf

I'r rhai ohonoch sy'n cofio nôl i'r pumdegau a'r chwedegau, os oes gennych luniau, straeon neu atgofion o unrhyw fath, byddai Iolo Walters (Caerdydd 612947) yn ddiolchgar am eich cyfraniadau i'w cynnwys mewn llyfryn am hanes yr ysgol.

### Mi ganaf gân....

Mae Côr Merched Llandaf wedi eu dewis i ymddangos yn rownd gynderfynol Cystadleuaeth Sainsbury's, Côr y Flwyddyn yn Nhŷ Opera Buxton yn Swydd Derby ym mis Tachwedd. Cafodd y côr ei sefydlu chwe blynedd yn ôl. Yr arweinydd presennol yw Siân Schutz. Llongyfarchiadau a phob lwc iddynt.

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlir â theulu'r diweddar John Watkin Jones, Y Bont-faen, a gynt o Ruthun, a fu farw'n ddiweddar yn 88 oed. Bu gwasanaeth angladdol i'r teulu yn Amlosgfa Pentrebychan a gwasanaeth coffa'n dilyn yng Nghapel Pen-dref, Rhuthun.

### Colli Llawfeddyg Arloesol

Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu Dr Jane Margaret Davies, Heol Lady Margaret, a fu farw'n ddiweddar yn Ysbyty Felindre'r Eglwys Newydd wedi cystudd blin.

Merch o Felin-gwm, sir Gaerfyrddin ydoedd. I'w chymdogion yno, 'Margaret Pen-cnwc' oedd hi, ac i'w chyd-weithwyr ym myd meddygaeth yn Ysbyty Llandochau, 'J.J.' gan iddi gadw'r cyfenw "Jones" ar gyfer ei gwaith.

Cyn iddi ymddeol, roedd yn Gyfarwyddwr Rhaglen Celloleg Cerfigol De Morgannwg. Gwnaeth lawer o waith arloesol ym myd laser a chanser y groth yn y swydd hon ac roedd ar flaen y gad i gasglu arian ar gyfer prynu'r cyfarpar laser mwyaf modern i Gymru a'i osod i fyny - tasg enfawr a gyflawnodd yn anrhydeddus. Hi oedd y llawfeddyg cyntaf i ddefnyddio'r dull newydd hwn yn y brifddinas.

### Newydd ymddeol

Ar ôl gwasanaethu fel Pennaeth Swyddfa Cymru o Fudiad Sefydliad y Merched mae Rhiannon Bevan, sy'n byw gyda'i gŵr John Bevan, yn Sain Ffagan, newydd ymddeol. Daw o ardal Castellnewydd Emlyn a bu'n astudio Gwyddor Tŷ yn y coleg yn Llandaf cyn mynd yn athrawes gwyddor tŷ yn Llundain. Yna ymunodd â'r Bwrdd Marchnata Llaeth cyn dod yn Bennaeth y WI yng Nghymru. Dymunwn yn dda iddi yn y dyfodol.

### Oes y byd i'r iaith Gymraeg

Bu Cymdeithas yr Iaith mewn trafodaethau â'r datblygwyr Grosvenor Waterside ym Mae Caerdydd er mwyn dwyn perswâd arnynt i ofalu bod holl arwyddion y Bae yn ddwyieithog. Llwyddwyd i gael addewid ganddynt y byddai hynny'n digwydd.

### Cylch Llyfryddol Caerdydd

"Amgueddfa Werin Cymru - Ddoe, Heddiw ac Yfory," oedd teitl darlith John Williams Davies, Ceidwad yr Amgueddfa i'r Cylch Llyfryddol ddiwedd Medi. Hon oedd darlith gyntaf y tymor newydd.

Mewn darlith wir ddiddorol, tywysodd y darlithydd ni trwy ddyddiau cynnar y syniad am sefydlu amgueddfa awyr agored cyn i'r adeiladau cyntaf cael eu hagor yn Sain Ffagan. Cyfeiriodd at y glewion a fu y tu ôl i bob cam o'r datblygu cyn edrych i'r dyfodol a'r amgueddfa yn y mileniwm newydd.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Mrs Kathleen Wood.



### Ymhlith y sêr

Mae Ioan Gruffudd, mab Peter a Gill Griffiths, Llandaf, wedi cael rhan Pip yn *Great Expectations* (Charles Dickens) fydd yn cael ei addasu i'w ddangos ar BBC2 y flwyddyn nesaf. Dechreuodd Ioan ar ei yrfa gyda *Pobol y Cwm* cyn mynd ymlaen i weithio gyda chriw *Titanic*. Yn yr hydref bydd yn ymddangos ar ITV fel Hornblower yn y ffilm a seiliwyd ar nofel C.S. Forrester. Ychydig yn ôl bu'n ffilmio ar gyfer ffilm newydd Gymraeg, o'r enw Solomon a Gaenor, a ddangosir yng Ngŵyl Ffilmiau Cymru ar 21 Tachwedd.

### The Land and the Sea

Mae Gwasg Gomer wedi cyhoeddi llyfr o luniau yr arlunydd enwog, Kyffin Williams, *The Land and the Sea*. Bu'r lansio yn Llyfrgell Genedlaethol Aberystwyth ddechrau Gorffennaf a bu ail lansio yn Oriel Albany yng Nghaerdydd ychydig yn ddiweddarach.

### Pyllau peli

Mae'r ddau frawd Gwilym ac Alun Boore, Yr Eglwys Newydd wedi cael cymaint o lwyddiant gyda'r Cynghrair Pêl-droed chwech bob ochr i gwmnïau busnes ledled De Cymru fel eu bod wedi penderfynu sefydlu cynghrair tebyg yn ardal Bryste.

### Fferm fodel i Dŷ Hafan

Mae'r model o fferm a ddefnyddiwyd mewn hysbyseb ar S4C i roi cyhoeddusrwydd i raglenni o'r Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd wedi ei rhoi i ysbyty newydd Tŷ Hafan yn ardal Sili.

### Y Cynulliad Cenedlaethol

Bydd cyfarfod cyhoeddus ar y cyd rhwng Cyngor Asiaidd Cymru a Changen Caerdydd a'r Fro, Ymgyrch Senedd i Gymru nos Fawrth 27 Hydref am 7.00pm yng Nghanolfan Datblygu Cymunedol De Glanyrafon, Stryd Brunel, Caerdydd (y neuadd ar y daearlawr). Bydd Mr Javed, Llywydd Cyngor Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd a'r Fro, Llywydd Cyngor Asiaidd Cymru, Cadeirydd Cymdeithas Les Pacistan yng Nghymru ac Ysgrifennydd Cyffredinol Cymdeithas Moslemiaid Cymru yn siarad. Os carech gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Jill Hutt yn yr hwyr ar 01222 563790.

### Llywydd newydd Cymrodorion Caerdydd

Yng nghyfarfod cyntaf y tymor, ar 2 Hydref, arwisgwyd Mrs Beryl Hall yn Llywydd Cymrodorion Caerdydd am y flwyddyn 1998-99. Yn y llun fe'i gwelir gyda'i rhagflaenydd yn y swydd, Mr Idwal Hughes.



Llywydd newydd Cymrodorion Caerdydd, Mrs Beryl Hall, a chyn-llywydd a thrysorydd y Cymrodorion, Mr Idwal Hughes.

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## CYNGOR EGLWYSI CYMRAEG CAERDYDD

### Canu ar y Cyd

Gwlyb a diflas oedd y tywydd nos Iau, 10 Medi, ond yn festri Salem, Treganna roedd y cwmni yn arbennig o wresog a chroesawgar. Daeth nifer da ynghyd i wrando ar y Dr Hywel Griffiths yn rhoi sylwadau ar lunio'r llyfr emynau cydenwadol Cymraeg newydd. Teitl ei sgwrs oedd "Canu ar y Cyd".

Dechreuwyd y trafodaethau yn 1994. Y gobaith yw y bydd y gyfrol yn ymddangos erbyn y flwyddyn 2000 a pharhau yn ei grym am chwarter canrif. Ni fydd yn annhebyg o ran ei phatrwm i'r casgliad Saesneg *Rejoice and Sing*, e.e. cynhwysir emynau'r plant yng nghorff y gwaith, ac nid mewn adran ar wahân.

Tair prif adran a fydd i'r llyfr newydd, sef Emynau Clasurol, Emynau Cyfoes Clasurol ac Emynau Modern. Anelir at gael cydbwysedd rhwng yr hen a'r newydd.

Diddorol yw nodi fod T Arfon Williams (aelod o'r pwyllgor golygyddol a chyn-aelod yn Ebeneser) wedi rhoi ystyriaeth fanwl i fersiynau cynharaf emynau Ann Griffiths, gan adfer rhai o'r darlleniadau gwreiddiol (megis "Dyma'r *peilot* ar y môr" yn lle "Dyma'r *llywydd* ar y môr").

Bwriedir cynnwys tua 800-900 o emynau a thua 600-650 o donau. Hepgorir anthemau ac emynau yn Saesneg. Er hynny, bydd y cynnwys yn amrywiol a chyfoethog. Ni phenderfynwyd eto ar deitl i'r gyfrol nac ychwaith ar argraffwyr iddi, ond y mae'r gwaith yn mynd rhagddo yn llwyddiannus ac yn llawn brwdfrydedd.

Edrychwn ymlaen at weld cyhoeddi'r emyniadur pwysig hwn cyn bo hir iawn. Bydd yn gaffaeliad eciwmenaidd gwerthfawr ar ddechrau'r mileniwm newydd.

Cafwyd cwestiynau treiddgar a thrafodaeth frwd ar ôl y sylwadau y Dr Griffiths. Diolch o galon iddo am anerchiad hynod ddifyr a diddorol. Llywyddwyd y noson yn fedrus gan y Parchg Noel Evans.

**Rhian a Gilbert Ruddock**

## EGLWYS EBENESER, CAERDYDD

### Priodasau

Cynhaliwyd dwy briodas gysylltiedig ag Ebeneser dros yr haf. Yn gyntaf, priododd Carwyn Lewis a Rhian Jones yn Ebeneser ar 31 Gorffennaf 1998. Yna, ar 8 Awst yn Swydd Gaerhirfryn priodwyd Melfyn Hopkins a Catherine Horn. Dymunwn iechyd a phriodas ddedwydd i'r ddau bâr.

### Yr Ysgol Sul

Ar ddiwedd tymor yr Ysgol Sul yng Ngorffennaf aeth nifer o blant a rhieni'r eglwys draw i Barc Gwledig Cosmeston wedi oedfa'r bore ar gyfer barbeciw blynyddol yr Ysgol Sul. Hefyd, ymwelodd nifer o'r plant ieuengaf a'i rhieni â Fferm Gymunedol Cwmbran - cryn addysg i blant a fagwyd mewn dinas, a rhai o'r rhieni hefyd.

## BETHEL, RHIWBINA

### Synod y Wesleaid

Cynhaliwyd Synod Talaith Cymru o'r Eglwys Fethodistaidd ym Methel, Rhiwbina, 19 Medi - y tro cyntaf i'r Synod gael ei chynnal yng Nghaerdydd ers dros 70 mlynedd. Llywyddwyd gan y Parchg Martin Evans Jones, Rhuthun, Cadeirydd y Dalaith a gofalwyd am y rhannau defosiynol gan y Parchg Pamela Cram, Arolygwr Cylchdaith Morgannwg; Mrs Eiddwen Thomas, Caerau, Maesteg; a chan weinidog Bethel, y Parchg D Haydn Thomas.

Cafwyd trafodaethau ar faterion yn ymwneud â'r Eglwys ac ar un o faterion llosg y dydd - y pryder ynglŷn â dyfodol ein ffermwyr a sefyllfa cefn gwlad yn gyffredinol. Penderfynwyd dwyn sylw'r Prif Weinidog ac Ysgrifennydd Cymru at y pryder hwnnw.

Un o uchelbwyntiau sesiwn y prynhawn oedd pasiant gan ddeugain o aelodau a phlant o ardal Rhuthun - pasiant am fywyd a chenhadaeth Edward Jones, sylfaenydd Wesleaeth yng Nghymru.

## EGLWYS DEWI SANT

### Bedydd Bethan

Ddiwedd Awst bedyddiwyd Bethan Nieve, merch Simon ac Emma Enoch yn Eglwys Dewi Sant. Roedd Simon yn chwarae rygbi i dîm Pontypridd tan yn ddiweddar ac yr oedd ef ac Emma am i'w merch gael ei bedyddio mewn eglwys Gymraeg ei hiaith.

### Oedfa'r Wawr

Roedd un nam bychan yn yr wybodaeth am wasanaethau Eglwys Dewi Sant yn rhifyn mis Medi. Cynhelir yr oedfa gyntaf, oedfa gymun, am wyth o'r gloch y bore, gwasanaeth poblogaidd iawn gan y selogion.

---

### Gŵyl Ffilmiau yng Nghaerdydd

Cynhelir degfed Gŵyl Ffilm Ryngwladol Cymru yng Nghaerdydd rhwng dydd Gwener, 13 Tachwedd, a dydd Sul, 22 Tachwedd. Sefydlwyd yr ŵyl yn Aberystwyth a bu'n boblogaidd iawn yno drwy'r blynyddoedd, ond er mwyn denu mwy eto o bobl i ymddiddori ynddi penderfynwyd ei symud i Gaerdydd.

Prif westai'r ŵyl eleni yw'r actores Julie Christie, a dangosir detholiad o'i hoff ffilmiau yn ystod yr ŵyl. Y wlad sy'n cael sylw arbennig yn yr ŵyl eleni yw Catalonia, ond dangosir ffilmiau o bedwar ban byd, gan gynnwys premiere tair ffilm Cymraeg newydd, *Lois*, *Porc Pei* a *Solomon a Gaenor*. Hanes cariad trasig rhwng Iddew a Chymraes yng Nghymoedd y De yw *Solomon a Gaenor*, a'r Cymro ifanc, dawnus o Gaerdydd, Ioan Gruffudd, yn chwarae rhan Solomon. (Gweler 'Calendr y Dinesydd' am fanylion dangosiadau'r ffilmiau Cymraeg.)

Dangosir yr holl ffilmiau yng nghanolfan sinema'r UCI ym Mae Caerdydd ac yng Nghanolfan Chapter yn Nhreganna, a chynhelir gweithdai a digwyddiadau eraill yn ogystal. Am ragor o fanylion, cysylltwch â Siôn Jobbins ar 01970-617995 neu â Swyddfa'r Ŵyl ar 01222-490034.

### Ennill ysgoloriaeth

Enillydd Ysgoloriaeth Sgrîn eleni i'r Coleg Ffilm Ewropeaidd yn Ebeltoft yn Nenmarc yw Mathew Peter Lewis o'r Eglwys Newydd. Mae'r ysgoloriaeth yn werth £6,000 ac yn galluogi'r enillydd i dreulio wyth mis yn dilyn cwrs ffilm. Astudiodd Mathew'r Celfyddydau Cain yng Ngholeg Celf Chelsea, lle y dechreuodd ei ddiddordeb ym myd y ffilm.

# YSGOL GLANTAF

## TAITH 'HER Y BYD' YSGOL GLANTAF I KENYA, HAF 1998 - PROFIAD BYTHGOFIADWY!!

Gorffennaf diwethaf, aeth grŵp o 21 aelod o chweched dosbarth Glantaf i Kenya, Dwyrain Affrica. Cafodd y trip ei drefnu trwy'r ysgol gan gwmni 'World Challenge Expeditions'. Fe ddechreuodd y paratoadau a'r cynlluniau yn gynnar ac erbyn yr amser i ni fynd roedden ni'n llawn brwdfrydedd.

Roedd pwysau arnom fel unigolion i gydweithio o fewn y grŵp er mwyn sicrhau yr amser gorau posib. Cafodd pawb yn ei dro ei benodi'n arweinydd, a chyda chynifer o bethau i'w trefnu roedd gwrando a pharchu penderfyniadau yr aelodau yn angenrheidiol i osgoi drwgdeimladau o fewn y grŵp.

Roedd cael y cyfrifoldeb am beth oedd yn mynd i effeithio ar yr holl grŵp yn anodd, ond roedd yr agwedd iawn a'r gallu i wneud yn ysgafn o'r sefyllfa yn golygu bod y grŵp yn tynnu'n agosach at ei gilydd.

Rhannwyd y grŵp yn ddau yn y brifddinas, Nairobi, a neb yn gwybod pa brofiadau i'w disgwyl o'r saffari ar gamel a dringo Mynydd Kenya cyn i ni ymuno eto fel grŵp cyfan ar gyfer y gwaith prosiect.

Roedd gweld y byd ar gefn camel yn brofiad gwahanol ac yn ein galluogi i amsugno'r holl olygfeydd prydferth a heddychlon o berspectif gwahanol. Wrth edrych allan gallem weld aelodau o'r llwyth Samburu ar y bryniau wedi eu gwisgo'n goch yn edrych allan yn falch ar eu cynefin. Roedd hi'n amser i wneud ffrindiau, i ddysgu am natur ac amdanom ni ein hunain, ac i droi ein meddyliau at athroniaeth bywyd.

Roedd y tirlun mawreddog ar Fynydd Kenya yn syfrdanol, ac roedd y teimlad o lwyddiant wedi'i gymysgu â heddwch a chyffro yn bleser wrth syllu ar y gorwel orengoch peth cyntaf y bore ar gopa Mynydd Kenya.

Yr her fwyaf oedd y gwaith prosiect mewn pentref bach yng ngogledd Kenya. Roedd y gwaith yn galed, y rhan fwyaf ohono'n beintio, ond hefyd yn bleserus. Roedd dysgu o flaen cannoedd o blant mewn ysgol gynradd mewn gwlad ddatblygol dlawd yn brofiad brawychus ond gwerth chweil.

Ymlaen i'r arfordir er mwyn ymlacio yn yr haul, tri diwrnod o siopa a breuddwydio am gartref!

Roedd digon o broblemau ar y daith, coes heintiedig, appendicitis, grŵp o bobl yn eu harddegau yn cwyno am ddiffyg bwyd a phoblogaeth y ddinas mewn sioc ar ôl bom dinistriol yn Nairobi.

Er hynny daethom ni i gyd adref mewn un darn, blinedig a brwnt, ond yn falch o'r cyfle i brofi diwylliant hollol wahanol i ni'r Cymry. Hoffem ddiolch i Mr Gareth Norton am drefnu'r daith, a hefyd i Miss Meleri Jones, Siôn Davies a Gwyndaf Jenkins am roi'r cyfle i ni brofi pedair wythnos fythgofiadwy.

**Catrin Doyle a Catherine Davies**



Hanner ffordd i fyny Mount Kenya

### Cefnogi Ysbyty Felindre

Bob blwyddyn mae Ysgol Glantaf yn dewis achos da i'w gefnogi. Fel arfer mae'r ysgol yn hoffi cefnogi elusen leol ac yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf bu'r disgyblion wrthi'n ddiwyd yn cynnal gwahanol gweithgareddau er mwyn codi arian i Ysbyty Felindre.

Roedd Mrs Mair Dyfri a Mrs Mair Owen wrth eu bodd yn ddiweddar yn derbyn siec ar ran yr ysbyty am £1,220 oddi wrth yr ysgol. Cyflwynwyd y siec gan Ifan Tudur, a weithiodd yn ddiflino yn gwerthu bathodynnau yn ystod y flwyddyn.

Yn y llun gwelir, o'r chwith i'r dde, Ifan Tudur, Huw Salisbury, Mr Huw Thomas (prifathro Glantaf), Mrs Mair Owen a Mrs Mair Dyfri.




Ifan Tudur, Huw Salisbury, Mr Huw Thomas, Mrs Mair Owen a Mrs Mair Dyfri
*Llun: Robin Griffith*

# YSGOL GLANTAF

## Taith Rygbi i Zimbabwe

Tua mis Mehefin er syndod i ni cawsom wahoddiad fel pencampwyr ysgolion Cymru 1996 i gystadlu ym Mhencampwriaeth Rygbi Ysgolion y Byd ddiwedd mis Gorffennaf. Doedd dim llawer o amser i baratoi ond aeth y garfan o 20 chwaraewr ati i ymarfer yn galed. Cafwyd cryn hysbysrwydd i'r daith gan gynnwys cyfweliad ar y rhaglen deledu 'Heno'. Enillwyd digon o noddwyr i'r daith a darparwyd cit a thracwisg i bob chwaraewr.

Cawsom groeso mawr yn Harare gan y teuluoedd oedd yn ein lletya. Roedd un o'r garfan yn lletya'r drws nesaf i'r Arlywydd ac roeddwn innau'n aros gyda Gweinidog Iechyd y wlad. Syndod oedd gweld y Mercedes a'r milwyr arfog o flaen y tŷ!


Roedd y Seremoni Agoriadol yn drawiadol iawn gyda phob gwlad yn cael ei harwain allan i sŵn ei hanthem genedlaethol. Roedd dawnswyr traddodiadol yno a phob math o adloniant.

Roedd ein gêm gyntaf yn erbyn Ysgol Tywysog Edward ac roeddem yn hapus iawn i ennill o 15 pwynt i 13. Efallai mai canu'r anthem ar y dechrau a'n hysbrydolodd! Y diwrnod canlynol roedd rhaid i ni chwarae yn erbyn yr Americanwyr. Yn anffodus yn y gêm hon anafwyd ein cefnwr Glyn Williams ar ôl tacl anghyfreithlon. Bu'n rhaid mynd ag ef i'r ysbyty ac anodd iawn oedd canolbwyntio ar weddill y gêm gan ei golli o 31 pwynt i 12. Colli'r gêm nesaf yn erbyn Belfast fu'r hanes hefyd. Bellach roeddem yn dioddef o anafiadau erchyll a naw chwaraewr holliach yn unig oedd ar ôl i chwarae yn erbyn Ysgol St George. Nid oedd yn syndod i ni felly golli'r gêm.

Cawsom gyfle yn ystod y diwrnodau nesaf i ymlacio a gweld prydferthwch y wlad gan gynnwys y 'Victoria Falls' a digon o anifeiliaid gwyllt ar saffari.

Er gwaethaf y siom o golli roedd y profiad o gymryd rhan yn y gystadleuaeth yn fythgofiadwy. Hoffem ddiolch i'r tîm hyfforddi a'n rhieni am wneud y fath brofiad yn bosibl.

**Hywel Jones (Capten)**



Y garfan a'r tîm hyfforddi.

## Elen Beth Morris



Mae nifer yn disgleirio ym myd y campau, ac un gampwraig sydd wedi cyflawni llawer yw Elen Beth Morris.

Pêl-fasged yw camp Elen, un ar bymtheg oed, a chafodd ei dewis i chwarae i dîm Ysgolion Cymru dan un ar bymtheg, cyn symud ymlaen i fod yn nhîm Merched Cymru i rai dan ddeunaw. Dangosodd allu arbennig ac fe'i dewiswyd yn aelod o dîm pêl-fasged Menywod Cymru. Roedd yn aelod o'r tîm a chwaraeodd yn yr *European Promotions Cup* yn Oberpullendorf, Awstria, yn ystod yr haf.

Mae'n ddisgybl yn Ysgol Glantaf ac yn cael amser i chwarae y tu allan i'r ysgol fel aelod o dîm y Rhondda Rebels. Mae newydd gael ei dewis hefyd i chwarae i dîm pêl-rwyd sir Caerdydd a'r Fro dan ddeunaw; tipyn o gamp i rywun mor ifanc. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at ddod i wybod am ei champau yn y dyfodol.

## Llwyddiant ym Myd Tennis

Llongyfarchiadau i dîm tennis dan 13 Ysgol Glantaf ar ennill gornest ysgolion y sir a hefyd Gynghrair Banc y Midland. Ar ôl curo Ysgol Aberdaugleddau, sir Benfro, y cam nesaf yw cystadlu yn rownd gyn-derfynol Ysgolion Cymru. Gwelir ym mlaen y llun, o'r chwith i'r dde, Llinos Williams, Elinor East, Alex Francis a Nia Williams (eilydd), ac yn y rhes gefn, Mrs Gaynor Jones a Carys Osborne.



*Llun: Robin Griffith*

# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG

dan ofal B.D. Harries

## Melin Gruffydd yn Edgbaston

Bydd dydd Llun, 6 Gorffennaf, yn aros yn y cof am amser hir i gricedwyr ifainc Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd a'u cefnogwyr. Am 6.50 y bore gadawodd y tîm yng ngofal y "Team Manager", Mrs Rhun Jones, a'r hyfforddwr penigamp Mr Alun Higham, ynghyd â llond bws o gefnogwyr, i chwarae yn rownd derfynol Pencampwriaeth Criced Ysgolion Prydain, a noddir gan Wrigleys. Cynhaliwyd y rownd derfynol yn Edgbaston ar gae griced swydd Warwick a lle bydd Lloegr fel arfer yn chwarae prawf cyntaf cyfres o brofion criced. Un ar bymtheg o dimau a fu'n cystadlu yno, y rheiny oll wedi ennill Pencampwriaeth eu hardaloedd, a Melin Gruffydd yn cynrychioli De Cymru ar ôl ennill y bencampwriaeth leol yn Nhon-du wythnos ynghynt. Ffurf debyg i Gwpan y Byd a gymerodd y bencampwriaeth sef pedwar grŵp o bedwar tîm a phawb yn chwarae yn erbyn ei gilydd ac yna enillwyr y grwpiau yn chwarae rownd gynderfynol.

Gêm ryngwladol Geltaidd oedd gêm gyntaf Melin Gruffydd yn erbyn Ysgol Timmergreens o'r Alban. Galwodd Gwyn Ford, y capten, yn gywir a dewis maesu gyntaf ac yn wir bowliodd a maesodd Melin Gruffydd yn dda iawn a chyfyngu sgôr y bechgyn o'r Alban i 238. Arweiniodd y capten y ffordd drwy gipio tair wiced a chipiwyd dwy yr un gan Owain Williams a Dafydd Wallis Evans ac un gan Mathew Preece. Roedd y disgwyliadau yn uchel wrth i Melin Gruffydd ddechrau batio, ond cafwyd dechreuad erchyll wrth i dair wiced syrthio yn yr ofer gyntaf! Cafwyd cryn welliant ond roedd y dasg yn ormod wrth i Melin Gruffydd syrthio naw rhediad yn fyr o'r darged.

Rhaid oedd anghofio am siom y gêm gyntaf a symud yn syth i'r gêm nesaf yn erbyn Ysgol Stivichall o Goventry. Batio yn gyntaf y tro yma a dechrau da gan Kyle Jones a Daniel Preece. Mwy o fatio campus oddi wrth Gruffudd Brynmor a Trystan Dafydd a'r disgwyliadau am sgôr sylweddol yn uchel. Gwyn a Dafydd yn parhau a'r gwaith da ond yn anffodus i Owain a Mathew, y pâr olaf, er iddynt fwrw sawl pêl yn uchel ac yn bell cawsant eu dal sawl gwaith a cholli pum rhediad i'r tîm bob tro yn sgîl hynny. Batiad Melin Gruffydd yn gorffen felly ar sgôr o 245 - dipyn yn llai na'r gobeithion, ond a fyddai hyn yn ddigon tybed?

Cafwyd bowlio cywrain a maesu da a sawl cais am rediad allan yn cael eu gwrthod gan Gymedrolwr o Saesnes er siom i'r bechgyn (a'r cefnogwyr). Roedd hi'n amlwg fod y gêm yn mynd i fod yn glòs a thrwy wicedi Mathew (2), Owain (1) a Gwyn (2) aeth y gêm i'r ofer a'r bêl olaf. Roedd angen pump i ennill oddi ar y bêl olaf a chafodd y batiwr olaf bedair. Gêm gyfartal felly - 245 yr un ac un pwynt yr un yn y grŵp.

Wedi chwarae dwy allan o dair gêm felly roedd gan Melin Gruffydd ond un pwynt a'r Albanwyr ifainc wedi ennill eu dwy gêm. Nid oedd modd felly i Melin Gruffydd symud ymlaen yn y gystadleuaeth ond rhaid oedd gwneud eu gorau am fuddugoliaeth yn eu gêm olaf dros yr ysgol a'u gwlad.

Efallai mai wedi ymlacio wrth feddwl nad oedd modd ennill y gystadleuaeth mwyach oedd y rheswm dros berfformiad gwych Melin Gruffydd yn y gêm olaf. Hwy a fatiodd yn gyntaf yn erbyn Ysgol Temple Cowley o Dde Lloegr a rhaid llongyfarch Kyle a Daniel am gledro nifer dda iawn o rediadau a thrwy hynny rhoi sylfaen gadarn i fatiad Melin Gruffydd. Siomedig oedd batiad Gruffydd a Trystan y tro hwn ond batiodd y lleill yn rhagorol yn enwedig Owain a Mathew ar y diwedd a Mathew yn llwyddo i daro ergyd ola'r batiad am chwech! Sgôr dda o 260, gwên lydan ar wyneb Alun Higham a'r argoelion yn dda gan fod Melin Gruffydd yn dangos tipyn o'r fform a arweiniodd at fuddugoliaeth yn y bencampwriaeth leol.

Os oedd y batio yn dda, yn sicr roedd y bowlio a'r maesu y tro hwn yn ardderchog. O'r ofer gyntaf hyd yr olaf roedd wicedi Temple Cowley yn cael eu chwalu a daliadau gwych gan Daniel (2) a Trystan a fu'n wicedwr drwy gydol y dydd. Cafodd Owain ddwy wiced, Dafydd pump, Gwyn dwy a Mathew tair. Bu'r perfformiad yn ddiweddglo campus wrth i Melin Gruffydd ennill o 62 rhediad. A fyddai hyn yn ddigon i sicrhau ail safle yn y grŵp? Bu raid aros i glywed canlyniad y gêm rhwng yr Albanwyr a'r bechgyn o Goventry. Buddugoliaeth i'r Alban ac felly chwe phwynt iddynt hwy a thri phwynt i Stivichall, sef yr un faint â Melin Gruffydd. Gan mai cyfartal fu'r gêm rhwng Melin Gruffydd a Stivichall rhaid oedd eu rhannu ar sail nifer y rhediadau y sgoriodd y ddau dîm: Stivichall 713 a Melin Gruffydd 734. Golyga hyn fod Melin Gruffydd wedi llwyddo i orffen yn yr wyth cyntaf o dros 5,000 o ysgolion cynradd Prydain a gystadlodd yn y Bencampwriaeth.




Roedd y trefnwyr wedi sicrhau fod un o chwaraewyr criced gorau'r byd, sef Waqar Younis, yn bresennol ac fe welir ef yn y llun gyda Alun Higham a'r tîm (o'r chwith yn y rhes gefn: Owain Williams, Daniel Preece, Mathew Preece, Dafydd Wallis Evans, Gwyn Ford; rhes flaen o'r chwith: Trystan Dafydd, Rhys Donovan, Gruffydd Brynmor a Kyle Jones).

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies




## CRICED



Byddaf fi'n teimlo ychydig yn drist bob tro y bydd gornest olaf yr haf wedi ei chwarae - diwedd y sŵn hyfryd hwnnw y soniodd rhyw Sais amdano fel yr helygen yn taro'r bêl ledr, diwedd tymor criced arall. Byddaf yn flwyddyn yn hŷn pan ddaw Ebrill nesaf, ac erbyn hynny yn yr ail adran y bydd Morgannwg yn cystadlu gan iddynt fethu â diweddu ymhlith wyth ucha'r deunaw sir. Nid heb obaith yr ydwyf, beth bynnag, bu cymaint o anafiadau eleni - Steve Watcyn yn methu chwarae yn erbyn Durham, Swydd Efrog a Sussex pan fyddai ei fowlio o bosibl wedi sicrhau un fuddygoliaeth o leiaf; Mathew Maynard, ynghynt yn y tymor, yn dioddef o anaf i gyhyr yn ei goes, ac er na chollodd fatiad ar ôl yr ornest ym Mae Colwyn yn erbyn Sir Gaerhirfryn, bu amheuaeth a oedd yn holliach am weddill y tymor. Collwyd Waqar Younis ddiwedd Mehefin, a derbyniodd Robert Croft a Steve James wahoddiad i chwarae dros Loegr; nid cysur o bell ffordd oedd batiad Croft yn achub Lloegr pan oedd Morgannwg yn colli i Surrey yn Abertawe.

Yr hyn sy'n rhoi gobaith inni yw cyfraniad y chwaraewyr ieuainc i'r sir - Michael Powell (840 o rediadau - cyfartaledd: 35 ag un cant), Wayne Law (444 o rediadau - cyfartaledd: 37 ag un cant) ac Alun Evans â chyfartaledd o 30 yn ei wyth gornest. Nac anghofier Darren Thomas a'i 500 o rediadau (cyfartaledd: 22). Oed y rhain yw 21, 20, 23 a 23; faint ohonynt a lygedir gan ddewiswyr Lloegr yn y dyfodol agos, tybed!

Ymhlith y bowlwyr, Darren Thomas oedd yr amlycaf - cipiodd 71 wiced, cyfartaledd: 24.63, ac yr oedd yn bumed yn rhestr fowlio'r Bencampwriaeth (nifer o wicedi, hynny yw).

Ni ellid ystyried Owen Parkin yn ifanc bellach - fe'i ganed yn 1972 - ond bowliodd yn rhagorol sawl gwaith yn ystod ei 300 pelawd, gan gael ei uchafbwynt ddiwrnod olaf y tymor yng Ngerddi Soffia pan gipiodd bum wiced Gwlad yr Haf am 24 o rediadau.

Blwyddyn Fudd yw hon i Steven Llywelyn Watcyn a aned yng Nghwm Rhondda yn 1964; mawr obeithio y caiff ei haeddiant yn ariannol oherwydd iddo fod yn un o brif golofnau'r sir ers blynyddoedd. Yn ei yrfa, cipiodd 727 o wicedau i Forgannwg, ac fe fydd ei angen y tymor nesaf yn sicr, ei bedwerydd tymor ar ddeg. Gyda llaw, nid oes yr un chwaraewr o'r deunaw yn y garfan a aned yng Nghaerdydd.

## PÊL-DROED



### CLWB CAERDYDD

Mae cadernid a disgyblaeth Frank Burrows, rheolwr Caerdydd, yn dechrau dwyn ffrwyth, a'i dîm wedi ennill pedair gêm cynghrair yn olynol - tasg nas cyflawnwyd ers tymor 1992-3 - tymor ei ddyrchafu. Ei record orau erioed - wyth buddugoliaeth yn olynol hanner cant a dau o flynyddoedd yn ôl ym 1946-47.

Bellach mae mwy o gydbwysedd yn y tîm, tipyn mwy o gystadleuaeth a gwell safon pasio o lawer a'r amharodrwydd i ildio pan fydd pethau i'w herbyn. Un peth amlwg sy'n ddiffygiol o hyd, sef cysondeb dros y 90 munud. Unwaith yn unig y gwelwyd hyn y tymor yma, a lloriwyd Amwythig o 3 gôl i ddim.

Stori wahanol yw'r gystadleuaeth am Uwch Gwpán Cymdeithas Pêl-droed Cymru o dan nawdd y BBC, Bangor yn eu trechu ar Barc Ninian o'r unig gôl, ac yn llawn haeddu gwneud hynny gyda'u brwdfrydedd a'u hegni, a'u golwr yn seren y gêm. Ond mae gemau eraill i adfer y sefyllfa gan Gaerdydd gan fod pedwar tîm yn eu grŵp, gyda'r cyntaf a'r ail yn cyrraedd rownd yr wyth olaf.

Mae un datblygiad pwysig o fewn y clwb, sef ffurfio gwe yn Ne Cymru a'r cyffiniau er ceisio denu chwaraewyr addawol lleol - yn enwedig bechgyn ysgol - i ymuno â'r clwb yn hytrach na throi eu golygon tuag at glybiau Lloegr. Ond llym fydd y gystadleuaeth (roedd chwech o sgowtiau o glybiau Lloegr yn gwylio gêm rhwng Ysgolion Caerdydd a Glynebwy yn ddiweddar - o dan 13 oed) a heb fawr o amheuaeth addewidion sylweddol ariannol i unigolyn addawol am ei arwyddnod ar ffurflen (fydd yn ei glymu i'r clwb). Ie, diwedd y gân, bron bob tro, yw'r geiniog - neu yn hytrach y miloedd o bunnau!

***HOWARD SPRIGGS***

## RYGBI



Beth y gellid ei ddweud am y bêl hirgron? Fawr ddim, mae arnaf ofn. Roedd Cwpan Ewrop i'r clybiau newydd ddechrau pan oeddwn i'n ysgrifennu'r geiriau hyn, ac heblaw am Bontypridd gwael oedd y canlyniadau. Collodd Llanelli gartref yn erbyn Leinster o bawb. Yn Toulouse yr oedd hi'n waeth o lawer ar Lynebwy - 108 i 16, a 16 o geisiadau. Pontypridd, yr oedd hi'n weddol amlwg, a ddaliai'r Ddraig unwaith yn rhagor yn y gystadleuaeth, ond gan fod y clybiau Ffrengig cyn gryfed, pa obaith oedd ganddynt o gyrraedd y Rownd Derfynol ddiwedd Ionawr. Dechreuodd Caerdydd eu tymor yn erbyn y clybiau Seisnig yn weddol lwyddiannus ond faint o wylwyr a gânt - ac Abertawe - erbyn y Nadolig pan fydd eu gwrthwynebwyr yng nghanol bwrlwm eu cynghrair a'u cwpan. Timau gwan, mae'n debyg, a fydd yn wynebu'r ddau erbyn hynny.

## Llongyfarchion

- i Richard Edwards, cyn-brifathro Ysgol Gynradd Heol Albany, ar ei benodi'n brifathro Ysgol Gynradd Heol Lansdowne, Treganna ar ymddeoliad Richard Davies, a fu'n brifathro yno am ddwy flynedd ar hugain. Daw teulu Richard Edwards o ardal Abergwaun ond cafodd ei fagu yn Rhiwbina.
- i Bethan Grey, Pen-y-lan a chyn-ddisgybl yn Ysgol Glantaf, ar ennill gwobr Cynllun Newydd Habitat gyda'i chynllun system silffoedd ryng-gloi. Derbyniodd fil o bunnoedd a chyfle i weithio ym mhencadlys Habitat yn Llundain. Ei thaid yw'r Athro Emeritws A O H Jarman. Yn ddiweddar cododd ei mam, Teleri Grey, fil o bunnoedd at fudiad Tenovus. Graddiodd Bethan mewn cynllunio dodrefn 3D ym Mhrifysgol De Montford, Caerlŷr.
- i Heulwen Davies, Radur, ar ei dyweddïad â Peter Strathearn o Glasgow.
- i Gareth Kiff, cyn Gadeirydd Cymdeithas yr Iaith ar ei swydd newydd fel Swyddog Ymgyrchoedd Plaid Cymru. Manteisiwn hefyd ar y cyfle i ddiolch iddo am ei gyfraniad i dudalen dysgwyr *Y Dinesydd* tra oedd yn ei swydd flaenorol fel swyddog gyda CYD.
- i Dr Peter Wynn Thomas o Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, ar ennill Gwobr Ymchwil Geltaidd John Legonna sy'n werth £10,000 am ei lyfr, *Gramadeg y Gymraeg* a gyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Cymru yn 1996. Bydd y wobr hon yn ei alluogi i gwblhau llyfr ar yr elfen Saesneg yn y Gymraeg. Dyfernir y wobr gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru.
- i Geraint Williams, Y Mynydd Bychan, ar gael ei benodi i ddysgu Cymraeg ym Mhrifysgol Galway yng Ngorllewin Iwerddon.
- i Nia Laugharne, Llandaf ac Andrew Rhys Crossman ar eu priodas yn ddiweddar yn Eglwys Dewi Sant, lle y mae tad Nia, Philip Laugharne, yn organydd. Mae Nia'n ymchwilydd ar raglen *Ferret* HTV. Bydd y pâr ifanc yn ymgartrefu yn y Bont-faen.
- i'r Dr Daniel Thomas, mab Huw a Siân Thomas, Heol Pantmawr, Rhiwbina, ar dderbyn ei ddoethuriaeth mewn cemeg o Brifysgol Cymru, Abertawe. Ers blwyddyn bellach bu'n gymrawd ymchwil ym Mhrifysgol Leeds, gan arbenigo mewn lasers. Mae'n gyn-ddisgybl o Ysgol Glantaf, sydd ag Adran Gemeg ddisglair.
- i Ian Miller, Heol Hamilton, ac aelod yn Eglwys Dewi Sant, ar gael ei ddyrchafu'n Bennaeth ar Gyllid Llywodraethol y Swyddfa Gymreig. Yn y swydd hon ef fydd yn gyfrifol am hanner yr arian a ddaw i'r pwyllgorau sir yng Nghymru.
- i Dr Jerry Hunter o Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, ar gael ei benodi'n Olygydd *Taliesin*, y cylchgrawn llenyddol a gyhoeddir yn chwarterol gan yr Academi Gymreig. Brodor o Cincinnati yw Dr Hunter, a bu'n darlithio yn yr Adran Geltaidd ym Mhrifysgol Harvard, Boston, cyn dod i Gaerdydd.

Estynnwn longyfarchion hefyd i sawl arlunydd ifanc mewn cystadleuaeth arlunio dan nawdd cwmni Capital Graphics o Lanisien. Enillodd Sophie Elliot, wyth oed, disgybl yn Ysgol Melin Gruffydd, y wobr gyntaf yn ei hadran. Yn gydradd ail daeth Joshua Howells, wyth oed, o Ysgol Pen-cae, Llandaf a Tina Chow, pump oed, o Ysgol Heol Lansdowne, Treganna. Roedd y gystadleuaeth yn rhan o'r cynllun "Caerdydd yn ei Blodau" a gynhelir bob blwyddyn gan Gyngor y Ddinas.

## Cymdeithas Rhieni Ysgol Bryntaf 1949-1981: Apêl

Yn ddiweddar bûm yn edrych ar hanes sefydlu'r ysgol Gymraeg gyntaf yng Nghaerdydd, a ddaeth yn hysbys fel Ysgol Bryntaf maes o law. Fe'i hagorwyd yn 1949, a bydd y flwyddyn nesaf yn hanner canmlwyddiant yr achlysur hwnnw (fel y bydd yn hanes nifer o ysgolion Cymraeg eraill ledled Cymru).

Wrth olrhain hanes yr ysgol yng Nghaerdydd, deuthum wyneb yn wyneb ag un anhawster mawr, sef ymhle y mae cofnodion Cymdeithas Rheini Bryntaf? Daethpwyd â'r Gymdeithas Rhieni honno i ben oddeutu 1981/82 gyda sefydlu pedair ysgol Gymraeg yn ei lle, sef Ysgol Melin Gruffydd, Ysgol y Wern, Ysgol Coed-y-gof ac yn ddiweddarach Ysgol Bro Eirwg.

O'r hyn a gofiaf, penderfynwyd bod cofnodion Cymdeithas Rhieni Bryntaf i'w rhoi ar gadw yn Llyfrgell Dinas Caerdydd. Fodd bynnag, pan holais amdanynt yn y Llyfrgell ryw fis yn ôl, dywedwyd wrthyf nad oeddynt yno. A oes rhywun o blith darllenwyr *Y Dinesydd* a ŵyr ble mae'r cofnodion hyn?

Ymhellach, gan mor bwysig yw cadw llythyrau, taflenni, rhaglenni digwyddiadau arbennig, ac yn wir unrhyw bapurau yn gysylltiedig â'r ysgol, a fyddai unrhyw rai o gyn-rieni'r ysgol a all fod wedi cadw papurau cyffelyb yn fodlon eu hanfon ataf i i'w rhoi (neu gopi ohonynt) mewn ffeil yn Llyfrgell y Brifysgol yng Nghaerdydd? Byddwn hefyd yn falch o allu rhestru pawb a fu'n swyddog yn y Gymdeithas Rhieni rhwng 1949 a 1981 – llywydd, is-lywydd, ysgrifennydd, trysorydd ac yn y blaen, ynghyd â'r dyddiadau perthnasol.

Gallwch anfon unrhyw wybodaeth/deunyddiau ataf yng ngofal Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, Blwch SP 910, Caerdydd CF1 3XW, neu gysylltu â mi ar y ffôn (01222-758814).

Gyda llawer o ddiolch rhag llaw,

**Glyn E. Jones** (Athro Ymchwil)

## Gwersi Llydaweg


Os ydych â diddordeb mewn dysgu Llydaweg, dylech gysylltu â Guto Rhys, 36 Heol Clive, Treganna, Caerdydd CF5 1HJ (Ffôn: 01222-223262), sy'n trefnu dosbarthiadau yng Nghaerdydd.

## Adlodd o'r Eisteddfod

Dyma, trwy garedigrwydd Mr David Jones, luniau o rai o Orseddogion Caerdydd a dynnwyd yn ystod Eisteddfod Genedlaeth Bro Ogwr eleni:



Robin Griffith, ffotograffydd *Y Dinesydd*, a chymwynaswr mawr mewn llawer cylch.



Y ddau Haydn Thomas: Y Parch. D. Haydn Thomas, gweinidog Eglwys Salem, Treganna, ar y chwith, a'r Parch. Haydn Thomas, Eglwys y Crwys, ar y dde.

*Cynhelir*

*Cyrddau Sefydlu'r*

**Parchedig Ieuan Davies, B.A., B.D.**

**(Minny St. Caerdydd)**

*yn weinidog*

**Y Tabernacl Treforys**

*ar*

**Nos Fercher, Tachwedd 25 1998**

**am 7.00 o'r gloch**

* * * * *

*Croeso cynnes i bawb*

# ATGYWEIRIO HEN GLOCIAU

*Arbenigwr mewn trwsio hen glociau a barometers.*

**Gareth Wyn Jones**
**26 Ashcroft Crescent,**
**Tyllgoed,**
**Caerdydd.**
**CF5 3RN**
**Ffôn: 569169**

# MATHEMATEG

## Gwersi Mathemateg (TGAU, TASAU)

Athrawes brofiadol yn cynnig hyfforddiant ychwanegol.

***Cysylltwch â Dianne Hughes***

**01222 - 755124**

**J. A. HUGHES gyda REES WOOD a TERRY**

A ydych chi wedi cael **damwain?**

Efallai y gallwch hawlio **iawndal?**

Mae'r cyfweliad cyntaf **yn rhad ac am ddim.**

Cysylltwch â Rhys Ll. Thomas
01222 - 666222

**Plaid Cymru**

Mae Plaid Cymru yn chwilio am

**BERSON I GADW CYFRIFON / CLERC CYLLID**

i weithio ym mhencadlys y Blaid yng Nghaerdydd.

Swydd ran amser yw hon a gellir bod yn hyblyg yngylch oriau gwaith.


Byddai profiad o ddefnyddio meddalwedd cadw cyfrifon a'r gallu i siarad Cymraeg yn fanteisiol.

Am fanylion pellach, ffoniwch 01222 646000

**Ceisiadau ar ffurf llythyr a CV.**
**Swyddfa Plaid Cymru, 18 Park Grove,**
**Caerdydd. CF1 3BN**

canolfan
celfyddydau
chapter,
canton

uci
glanfa'r
iwerydd,
bae caerdydd



# 13-22 • 11 • 98

CAERDYDD gwybodaeth 01222 406220

## Ffilmiau Cymraeg yr Ŵyl:



**Lois**, Chapter 15/11/98, 8pm

Lois (**Nia Roberts** sydd hefyd yn ymddangos yn **Solomon a Gaenor**) yw'r prif gymeriad yn y stori ramantaidd hon am fyfyrwraig coleg sy'n benderfynol o gadw ei phroblemau bwyta yn gyfrinach rhag ei ffrindiau a'i chariad.

(Mae'r ffilm yn Gymraeg, heb is-deitlau ond bydd cyfieithu ar y pryd).



**Solomon a Gaenor**, UCI 21/11/98, 9.00pm

**Ioan Gruffudd** (Titanic, Hornblower) a **Nia Roberts** yw dau o'r sêr y ffilm ramantus drasig hon am gariad rhwng aelodau o wahanol genhedloedd, cyn y Rhyfel Byd Cyntaf.



**Porc Pei**, Chapter 22/11/98, 2.30pm

Trowsus trwstan sy'n wynebu bachgen ysgol Kenneth Roberts Parry wrth iddo drio ei orau glas i osgoi canu yng nghôr y capel. Ffilm hwyliog wedi ei lleoli yn y chwedegau cynnar gyda **Wynford Ellis Owen, Trystan Roberts** a **Nia Caron** yn brif actorion. Cyfarwyddwyd gan Paul Turner.

## gŵyl ffilm ryngwladol cymru

dros 100 o ffilmiau ryngwladol dros 10 diwrnod

S4C Sgrîn HTV color by deluxe deluxe london BBC Cymru Wales




**EISTEDDFOD GADEIRIOL**
**AMGUEDDFA WERIN CYMRU**

**SAIN FFAGAN**

**Dydd Sadwrn, 21 Tachwedd, 1998**

**TESTUNAU LLENYDDOL**
**Beirniad: Islwyn Jones**

1. Cerdd y Gadair: 'Amgueddfa Werin Cymru'
   *Gwobr:* Cadair fechan o waith un o grefftwyr yr Amgueddfa Werin.
2. Soned, Cywydd neu gyfres o Englynion: 'Iorwerth C. Peate' neu 'Ffransis G. Payne'
3. Englyn: 'Y Cynulliad Cymreig'
4. Triban neu Bennill: 'Unrhyw Gymro neu Gymraes a anwyd yn ystod yr ugeinfed ganrif
5. Pennill Beddargraff doniol: Agored
6. Limrig:
   Wrth grwydro'n Sain Ffagan ryw ddiwrnod
   Fe welais beth rhyfedd a hynod...
7. Brawddeg neu Frawddegau a phob gair yn dechrau â'r llythrennau D neu DD
8. Brawddeg o'r llythrennau yn yr enw 'Llwyn-yr-eos'
9. Brysneges /Teligram heb fod dros bymtheg gair
10. Ysgrif o dan 16: 'Diwrnod yn Sain Ffagan'
11. Ysgrif agored: 'Yr Etifeddiaeth' neu 'Amgueddfa Werin Cymru'

Y Cyfansoddiadau i'w hanfon at un o'r Ysgrifenyddion cyn **5 Tachwedd:**

Elaine Roszkowska a Meinwen Ruddock,
Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd
CF5 6XB. Ffôn: 01222 573432, 573427 neu 573500

Mewn amlen o dan sêl dylid cynnwys: rhif a theitl y gystadleuaeth, ffugenw, enw llawn, cyfeiriad a rhif ffôn. Ar wyneb yr amlen noder: rhif a theitl y gystadleuaeth a'r ffugenw.

Rhaglen ar gael gan un o'r Ysgrifenyddion.


AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU
NATIONAL MUSEUMS & GALLERIES OF WALES

## AMGUEDDFA WERIN CYMRU, SAIN FFAGAN
## 2 GYNORTHWY-YDD SIOP RHAN AMSER

**Cyflog: £4.00 yr awr, di-bensiwn. Cytundeb dros dro am flwyddyn.**

Gwahoddir ceisiadau ar gyfer y swydd hon yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan.

Disgwylir i chi gynorthwyo'r Arolygydd Siop drwy roi gwasanaeth i'r cyhoedd a gweithredu'r til, yn ogystal â rhywfaint o waith clerigol.

Byddai profiad o weithio mewn siop a thrwydded yrru o fantais, ynghyd â gwybodaeth o ofal/gwasanaeth cwsmeriaid. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol.

ORIAU GWAITH: Dydd Llun - Dydd Gwener, 11.00am - 3.00pm NEU Dydd Sadwrn a Dydd Sul, 9.00am - 5.00pm.

*Am fanylion pellach a ffurflen gais, ffoniwch ein gwasanaeth ffôn ateb ar 01222 645511, gan ddyfynnu'r cyfeirnod: MSG5/12/PS/REMWL.*